**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-02(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2002 |
| **Amser:** | 2.30pm hyd 5.30pm |
| **Lleoliad:** | Y Pafiliwn Rhyngwladol, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair ym Muallt |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canol a Gorllewin Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canol a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Alan Starkey | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O'Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Glyn Perryman | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Gareth Jones | Yr Is-adran Rheoli PAC |
| Huw Davies | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| David Collins | Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol |
| Simon Hewitt | Y Comisiwn Coedwigaeth |

| | |
|---|---|
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |

Liz Wilkinson Dirprwy Glerc Pwyllgor

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies a dirprwywyd ar ei rhan gan Elin Jones.

1.2 Gwnaethpwyd y datganiadau isod gyda golwg ar fudd:

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
- Dywedodd Peter Rogers ei fod ef, ei wraig a'i fab yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
- Cyfeiriodd y naill a'r llall at fanylion llawnach sydd ar gael yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.
- Dywedodd Ron Davies ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Goedlannau ac yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

1.3 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, yn amodol ar fân newidiadau, wedi cymeradwyo'r adroddiad ar hela â chwn a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 19 Mehefin. Gan fod rhai o'r Aelodau wedi mynegi gwrthwynebiad i'r adroddiad, cytunodd y Pwyllgor ag awgrym y Cadeirydd na ddylid cyflwyno'r adroddiad i ymgynghoriad y DU sy'n cael ei wneud gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn hytrach, byddai'r Cadeirydd yn cynnig anfon cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i Adran yr Amgylchedd.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 12-02(p1)**

***Ymchwiliad Follett***

2.1 Mynegwyd pryder ynghylch canlyniadau economaidd y gwaharddiad ar symud anifeiliaid. Byddai trefniadau gwahardd yn y dyfodol yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Follett ac yn adroddiad Anderson ar glwy'r traed a'r genau a fyddai'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref yn nodi ei ymateb i ganfyddiadau Ymchwiliadau Follett ac Anderson i glwy'r traed a'r genau.

***Amcan 1***

2.2. Nododd y Pwyllgor fod yr £16.9 miliwn yr oedd ei angen ar gyfer y cyfnod a oedd yn weddill o'r prosiect *Cydcoed – Woods for All* yn cynnwys £10 miliwn o arian cyfatebol. Byddai'r elfen arian cyfatebol ar gyfer y prosiect yn ychwanegol at gyllideb sylfaenol y Comisiwn Coedwigaeth. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o ymestyn prosiectau coedwigaeth Amcan 1 i ardaloedd Amcan 2.

***Rhestrau cenedlaethol gwahanol fathau o blanhigion: ychwanegu hadau wedi eu haddasu'n enetig at y rhestr gymeradwyedig***

2.3 Nododd yr Aelodau y byddai'n ofynnol i bedwar Gweinidog y DU ddod i benderfyniad ar y cyd ynghylch cymeradwyo rhoi unrhyw hadau wedi eu haddasu'n enetig ar y Rhestr Genedlaethol. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ymrwymedig i ddymuniad y Cynulliad i sicrhau'r polisi mwyaf rhwystrol ond na fyddai'n torri'r gyfraith er mwyn gwneud hynny.

***Ailgyfeirio Cymorthdaliadau er mwyn Cefnogi Biomas***

2.4 Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r syniad o dalu cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr da byw er mwyn eu hannog i gynhyrchu cnydau biomas a gobeithiai y gellid cynnwys hyn yn yr adolygiad tymor canolig o'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (PAC).

***Ystwytho Cwotâu a chefnogi ffermwyr ieuainc***

2.5 Yr oedd yn debygol y byddai'r cynigion presennol, gan gynnwys blaenoriaethu wrth ddosbarthu cwotâu o'r gronfa genedlaethol, yn cael eu disodli gan gynigion mwy radical yn adolygiad tymor canolig y PAC. Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen diogelu cymorth i ffermwyr ieuainc wrth ddatblygu cynigion adolygiad tymor canolig y Comisiwn.

***Profion am TB mewn ceirw***

2.6 Tynnwyd sylw at yr angen i wneud profion gorfodol ar geirw mewn ardaloedd lle cafwyd achosion o TB. Gofynnodd y Gweinidog i Peter Rogers roi manylion iddo am achos unigol a grybwyllwyd a chytunodd y byddai wedyn yn gofyn am farn y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref yn nodi ei ymateb i ganfyddiadau Ymchwiliadau Follett ac Anderson i glwy'r traed a'r genau – **Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid.**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y posibiliadau ar gyfer ymestyn prosiectau

coedwigaeth Amcan 1 i ardaloedd Amcan 2 – **Gweinidog, Y Comisiwn Coedwigaeth.**

**Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth – Gorchymyn Crancod Bwytadwy sy'n Rhy Fach (Cymru) 2002: ARD 12-02(p2)**

3.1 Argymhellodd y Pwyllgor fod y Gorchymyn drafft yn cael ei gymeradwyo heb ei ddiwygio.

**Eitem 4: Is-ddeddfwriaeth – Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cymru) 2002: ARD 12-02(p3)**

4.1 Argymhellodd y Pwyllgor fod y Gorchymyn drafft yn cael ei gymeradwyo heb ei ddiwygio.

**Eitem 5: Adolygiad Tymor Canolig o'r PAC: ARD 12-02(p4)**

Croesawodd y Pwyllgor brif egwyddorion y cynigion a chyfeiriad sylfaenol y diwygiadau arfaethedig.

Yn ystod y drafodaeth nodwyd y canlynol fel pryderon neu feysydd yr oedd angen eglurhad arnynt:

- yr amserlen gaeth ar gyfer datblygu'r cynigion a'r angen i sicrhau ymgynghoriad digonol gyda'r diwydiant;
- rôl y Pwyllgor wrth helpu i lunio'r cynigion;
- i ba raddau y byddai buddiannau'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu yn safbwynt cyd-drafod y DU a'r pecyn terfynol a oedd yn cael ei ddatblygu gan y Comisiwn;
- dyfodol arian cyfatebol ar gyfer cronfeydd wedi eu modwleiddio pe bai modwleiddio'n cael ei wneud yn orfodol;
- effaith y lwfans arfaethedig ar gyfer llafur ar fferm, yn enwedig ar y ffermydd teuluoedd sydd yng Nghymru;
- gweithredu'r system daliadau arfaethedig ar sail derbyniadau hanesyddol;
- yr angen am gydymffurfiad sylfaenol er mwyn derbyn y taliadau arfaethedig a threfniadau archwilio cadarn er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyffredin yn ymwneud â lles anifeiliaid, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch;
- effaith y cynigion ar y gyllideb yn y tymor hir, yn enwedig gan fod Aelod-Wladwriaethau newydd yn cael eu derbyn;
- pwysigrwydd arbennig y cynigion yn ymwneud â chwotâu llaeth a'r sector llaeth i Gymru;
- yr angen i'r DU bwyso am gyfran fwy o arian o biler 2 nag a gafwyd yn y gorffennol.

Cytunodd y Gweinidog i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau pwysig yn ymwneud â chynigion yr adolygiad tymor canolig o'r PAC yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y cynigion ymhellach yn y cyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref.

**Cam gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau pwysig yn ymwneud â chynigion yr adolygiad tymor canolig o'r PAC yn ystod gwyliau'r haf. Y Pwyllgor i ystyried y cynigion ymhellach yn y cyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref - **Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.**

**Eitem 6: Strategaeth Bysgodfeydd: ARD 12-02(p5)**

6.1 Codwyd y pwyntiau isod yn ystod y drafodaeth:

- yr angen i ddatblygu cyfleusterau prosesu priodol, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, lle'r oedd pysgodfeydd mawr;
- yr angen i ddadansoddi a chymharu manteision economaidd pysgota adloniadol a masnachol er mwyn bod yn sail i gynigion ar gyfer y Strategaeth Bysgodfeydd yn y dyfodol;
- yr angen i werthuso ac ystyried effaith amgylcheddol pysgota masnachol;
- pwysigrwydd diogelu pysgota fel rhan o'n treftadaeth yng Nghymru a'i gyfraniad i'r diwydiant ymwelwyr.

**Eitem 7: Adroddiad Cynnydd ar Weithredu JIGSAW: ARD 12-02(p6)**

7.1 Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaethpwyd wrth weithredu JIGSAW a'r gwelliannau dilynol yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir. Cofnododd yr Aelodau eu diolch i swyddogion y Swyddfeydd Rhanbarthol a oedd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i'r rhaglen ac a oedd wedi cyfrannu tuag at ei llwyddiant hyd yn hyn.

**Eitem 8: Ymchwiliad y Pwyllgor i Ffermio Organig: ARD 12-02(p7)**

8.1 Nododd yr Aelodau y dylid cynnwys ystyriaeth o'r materion isod yn adroddiad y Pwyllgor ar ffermio organig:

- dadansoddiad o fanteision economaidd ffermio organig, gan gynnwys rhagolygon ar gyfer y farchnad ac i ba raddau y mae'r premiwm ar gyfer cynnyrch organig yn gynaliadwy;
- taliadau parhaus er mwyn galluogi ffermwyr organig yng Nghymru i gystadlu ym marchnadoedd yr UE a goblygiadau dilynol o safbwynt cyllidebau a chost cyfle;
- manteision ffermio organig o safbwynt yr amgylchedd ac iechyd;

- cefnogaeth er mwyn hyrwyddo a marchnata cynnyrch organig Cymru;
- cefnogaeth barhaus i Ganolfan Organig Cymru;
- yr angen i gadw targedau ar gyfer troi'n organig er mwyn sicrhau hyder y cynhyrchwr;
- i ba raddau y bydd Rheoliad yr UE, a fydd yn dod i rym cyn bo hir, ynghylch hadau i'w defnyddio mewn systemau cynhyrchu organig a'r hadau organig a fydd ar gael yng Nghymru yn cael effaith andwyol ar y targedau presennol;

- yr angen i sicrhau bod safonau ardystiad organig tebyg yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o’r UE.

8.2 Yn ychwanegol at hyn, codwyd y pwyntiau isod:

- nid oedd y dystiolaeth lafar i’r Pwyllgor yn awgrymu bod lle i bryderu ynghylch twf y farchnad organig yng Nghymru;
- yr oedd modd cefnogi ffermio organig fel system gynhyrchu yn cael ei harwain gan y farchnad, gan gydnabod a hyrwyddo ei manteision ehangach i’r gymdeithas gyda golwg ar yr amgylchedd.

**Eitem 9: Ymchwiliad Arfaethedig y Pwyllgor i Ddyfodol Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol: ARD 12-02(p8)**

Cymeradwywyd y cylch gorchwyl awgrymedig yn amodol ar newid bychan. Cytunodd y Pwyllgor y dylai gwaith ar yr ymchwiliad barhau gan roi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau cyfochrog sy’n cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 10: Cofnodion y cyfarfod blaenorol: ARD 11-02(min)**

10.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf yn amodol ar newid bychan.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Gorffennaf 2002**